# Codi tâl am ofal a chymorth preswyl

# Canllaw i Asesu Ariannol a Thaliadau

# 2026-2027

# Cynnwys


Cyflwyniad........................................2
1. Ffioedd Gwasanaeth Gofal a Chymorth Preswyl. ........................................2
2. Beth yw Asesiad Ariannol? ........................................3
3. Hunan-ariannu ........................................4
4. Cyfraniadau Cost Ychwanegol Trydydd Parti ........................................4
5. Beth sydd wedi'i gynnwys mewn asesiad ariannol?........................................4
5.1 Cyfalaf ........................................5
5.2 Eiddo ........................................6
5.3 Incwm ........................................7
5.4 Enillion ........................................7
5.5 Isafswm Incwm, Lwfansau ac Elfennau a Anwybyddir........................................7
7. Oes angen i mi ddweud wrthych am unrhyw newid? ........................................8
8. Sut ydw i’n talu yr hyn sy’n ofynnol? ........................................9
9. Os ydych chi'n meddwl bod eich Asesiad Ariannol yn anghywir ........................................9
10. Beth sy’n digwydd os ydw i'n anhapus â'r gwasanaeth neu eisiau gwneud cwyn? ........................................9
11. Manylion Cyswllt ........................................10
12. Ffioedd am ofal a chymorth preswyl ........................................10

## Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn darparu gwybodaeth ar sut y gallech chi fod yn gymwys i dderbyn cymorth gyda chostau symud i mewn i gartref preswyl neu nyrsio.

Mae deddfwriaeth genedlaethol a Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei ystyried wrth asesu eich gallu i dalu ffioedd cartrefi gofal. Er mwyn sicrhau bod y ffioedd y byddwn yn codi yn deg, rydym yn dilyn Polisi Codi Tâl yn seiliedig ar ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014:

https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents

Bydd hyn yn cynnwys:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Codi Tâl) (Cymru) 2015 – https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1843/contents

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu Ariannol) (Cymru) 2015 – https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1844/contents

- Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Tâl ac Asesu Ariannol) - https://www.gov.wales/code-practice-charging-social-care-services

## 1. Ffioedd Gwasanaeth Gofal a Chymorth Preswyl.

Mae'r Cyngor yn adolygu'r gwasanaethau y mae'n codi tâl amdanynt yn rheolaidd, ac mae pob tâl gwasanaeth yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd rhai pobl yn talu'r tâl llawn am eu gwasanaeth, bydd rhai yn talu dim, a bydd eraill yn cyfrannu swm yn seiliedig ar eu hamgylchiadau.
Ni fydd unrhyw un yn talu mwy na chost llawn eu lleoliad preswyl neu nyrsio.

Darperir gofal am ddim os:

- rydych chi'n derbyn gwasanaethau ôl-ofal o dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983
- rydych chi'n oedolyn sydd wedi cael diagnosis o Glefyd Creutzfeldt-Jacob
- cewch eich rhoi mewn Gwely Gofal Dros Dro
- caiff eich gwasanaethau eu hariannu drwy Gofal Iechyd Parhaus gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'r gwasanaethau preswyl a restrir isod yn destun asesiad ariannol i benderfynu faint y gall person fforddio ei dalu:

- **Gofal tymor byr** – lle nad yw disgwyl i'r arhosiad fod yn fwy nag 8 wythnos ar y pwynt derbyn

- **Gofal seibiant** – lle ar y pwynt derbyn bydd yr arhosiad am uchafswm o 6 wythnos

- **Taliadau Uniongyrchol** – taliadau a ddarperir yn lle gofal tymor byr neu seibiant. Mae rhagor o wybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y daflen "Codi Tâl am Ofal a Chymorth dibreswyl - Canllaw i Asesu Ariannol a Thaliadau ".

- **Arhosiad dros dro** – lle ar y pwynt derbyn rhagwelir y byddwch yn gallu dychwelyd i'ch cartref eich hun yn y dyfodol **a bod** eich arhosiad yn debygol o fod yn fwy nag 8 wythnos ond gall fod yn fyrrach, gan barhau hyd at uchafswm o 52 wythnos.

- **Arhosiad parhaol** – lle ar y pwynt derbyn rhagwelir y byddwch yn parhau i fod yn breswylydd am gyfnod amhenodol.

- **Arhosiad Coleg Preswyl** – lle mae'n cael ei nodi fel rhan o gynllun gofal a chymorth bod oedolion ifanc ag anableddau angen lleoliad coleg preswyl i ddiwallu anghenion a nodwyd am gyfnod cyfyngedig o amser.

**Noder os gwelwch yn dda**, os bydd eich math o wasanaeth yn newid e.e. eich bod yn cael eich rhoi mewn arhosiad dros dro mewn cartref gofal a chyn diwedd y cyfnod o 52 wythnos penderfynir y bydd eich arhosiad yn barhaol, yna bydd y rheolau codi tâl am arhosiad parhaol yn cael eu cymhwyso o'r pwynt lle mae newid yn y gwasanaeth

Bydd yr asesiad ariannol yn pennu'r union swm y bydd yn ofynnol i chi ei dalu am y gwasanaeth rydych chi'n ei dderbyn a bydd yn dibynnu ar eich amgylchiadau ariannol ac ni fydd yn fwy na'r uchafswm ar gyfer y gwasanaeth hwnnw fel y manylir yn Adran 12.

Os ydych chi'n cael eich asesu fel un sydd angen gofal nyrsio, bydd yr elfen gofal nyrsio a ariennir yn cael ei thalu gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac ni fydd yn cael ei chynnwys yn eich tâl asesedig.

## 2. Beth yw Asesiad Ariannol?

Mae asesiad ariannol (a elwir hefyd yn brawf modd) yn penderfynu faint yw'r swm y gallwch fforddio ei dalu'n rhesymol tuag at y gwasanaethau sy'n destun asesiad ariannol, fel yr amlinellir yn Adran 1.

Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn eich gwahodd i lenwi ffurflen 'Datganiad Modd'. Os nad ydych yn rheoli eich materion ariannol eich hun, gall y person sy'n gwneud hyn lanw’r ffurflen ar eich rhan.

Efallai y byddwch yn dewis peidio â datgelu eich gwybodaeth ariannol. Os felly, bydd yn ofynnol i chi dalu'r tâl priodol am y gwasanaeth(au) yr asesir sydd eu hangen arnoch, hyd at yr uchafswm tâl wythnosol fel yr amlinellir yn Adran 12 ac ystyrir yn unigolyn sy’n ariannu ei ofal ei hun (gweler Adran 3). Os byddwch yn unigolyn fydd yn ariannu ei ofal ei hun bydd angen talu ffi blynyddol penodol fel y nodwyd yn Adran 12 gan fod yn daladwy yn ychwanegol I’r ffioedd gofal perthnasol.

Mae'n bwysig nad ydych chi'n talu mwy nag sydd ei angen arnoch. Trwy asesu eich cyllid, gallwn sicrhau bod eich tâl yn gywir a'ch bod yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt. Mae cyngor a chymorth ar gael i'ch helpu i hawlio budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Ganolfan Byd Gwaith lle bo hynny'n briodol.

Byddwn yn gofyn am weld dogfennau ariannol ategol a byddwn yn gwneud copïau o'r dogfennau hyn i sicrhau bod gennym gofnod cywir o'ch amgylchiadau ariannol ar adeg yr asesiad. Mae gennym weithdrefnau ar waith i sicrhau yr ymdrinnir â’ch gwybodaeth mewn modd diogel ac y diogelir eich preifatrwydd.

Os byddwch yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol ar y ffurflen 'Datganiad Modd' neu'n methu â datgelu'r holl amgylchiadau ariannol perthnasol er mwyn lleihau neu osgoi talu taliadau, efallai y codir cost lawn y gwasanaeth(au) a ddarperir arnoch, fel yr amlinellir yn Adran 12.

Byddwn yn penderfynu ar swm y gallwch ei fforddio'n rhesymol ei dalu am y gwasanaethau sy'n glwm wrth asesiad ariannol cyn gynted ag y byddwn yn derbyn yr holl wybodaeth a dogfennaeth angenrheidiol.

Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, byddwn yn darparu datganiad ysgrifenedig yn esbonio sut y gwnaed yr asesiad a'r swm y codir arnoch.

Ar ôl penderfynu ar dâl, bydd gofyn i chi ei dalu o'r dyddiad y darparwyd gofal a chymorth gyntaf.

## 3. Hunan-ariannu

Mae gennych opsiwn i beidio â datgelu eich sefyllfa ariannol. Os byddwch yn dewis peidio â datgelu eich sefyllfa ariannol / cyllid, fe fyddwch yn cael i asesu i dalu'r tâl llawn am eich gofal a byddwch yn cael eich nodi fel 'unigolyn sy’n ariannu ei ofal ei hun’.

Byddwch chi hefyd yn cael eich nodi fel 'unigolyn sy’n ariannu ei ofal ei hun’ os bydd eich cynilon, tir, gwerth eiddo yn fwy na’r trothwy cyfalaf uchaf (gweler adran 5.1)

Fel unigolyn sy’n ariannu ei ofal ei hun, byddwch yn gyfrifol am dalu’r ffioedd gofal a godir gan y cartref. Yn ogystal, bydd ffi weinyddol flynyddol sefydlog yn cael ei chodi ar sail pro-rata.

Mae manylion y ffioedd i'w gweld yn Adran 12.

## 4. Cyfraniadau Cost Ychwanegol Trydydd Parti

Mae Cyfraniad Cost Ychwanegol 3ydd Parti yn daliad a wneir i gartref gofal ar eich rhan fel arfer gan ffrind neu berthynas.

Efallai y bydd angen hyn os y byddwch, yn dilyn asesiad ariannol sy'n penderfynu bod eich asedau yn is na'r trothwy cyfalaf uchaf, yn dewis eich cartref gofal neu ystafell eich hun yn hytrach na'r lleoliad a gynigir gan yr Awdurdod Lleol.

Os yw'r cartref gofal neu'r ystafell y byddwch chi’n ei dewis yn costio mwy na'r swm y bydd yr Awdurdod Lleol fel arfer yn ei dalu am y lleoliad hwnnw, rhaid i drydydd parti lofnodi cytundeb i dalu'r gost ychwanegol honno am gyfnod y lleoliad.

**Noder os gwelwch yn dda**: Mae'r Cyfraniad Cost Ychwanegol caiff ei dalu gan drydydd parti ar wahân, ac yn ychwanegol at y swm y bydd yn ofynnol i chi ei dalu tuag at eich lleoliad.

## 5. Beth sydd wedi'i gynnwys mewn asesiad ariannol?

Bydd yr asesiad ariannol yn cael ei gynnal ar y person sy'n derbyn y gwasanaeth(au) ac sy'n gymwys i gael asesiad ariannol.

Dim ond yr incwm a'r cyfalaf, gan gynnwys eiddo (lle bo'n berthnasol), y mae gan y person hwnnw hawl iddynt fydd yn cael eu hystyried.

Pan fo incwm, cyfalaf neu fuddsoddiadau ac ati yn cael eu dal ar y cyd â pherson arall, byddant yn cael eu dosrannu'n gyfartal oni bai bod y cofnodion a ddarperir yn dangos hawl wahanol.

Pan delir budd-daliadau mewn perthynas â 'chwpl', defnyddir y swm y gellir ei briodoli i'r person sy'n derbyn y gwasanaeth yn yr asesiad ariannol. Fodd bynnag, gallwn asesu incwm cwpl os yw gwneud hynny'n fwy manteisiol yn ariannol i'r person sy'n cael ei asesu.

Os oes unrhyw un arall yn byw gyda chi yn yr un cyfeiriad, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau nad yw incwm yr aelwyd yn disgyn yn is na'r isafswm lefel a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 5.1 Cyfalaf

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod terfyn cyfalaf perthnasol bob mis Ebrill. Ar gyfer blwyddyn ariannol **2026/2027,** y terfyn cyfalaf yw**:**

**£50,000.**

Os yw eich asedau, gan gynnwys cynilion, cyfrifon cyfredol, buddsoddiadau ac eiddo (lle bo'n berthnasol) yn uwch na'r terfyn hwn, bydd gofyn i chi dalu hyd at y tâl wythnosol llawn fel yr amlinellir yn Adran 12, a byddwch yn cael eich nodi fel 'unigolyn sy’n ariannu ei ofal ei hun’ (gweler Adran 3).

Os yw eich cyfalaf a aseswyd yn is na'r terfyn, ni chaiff ei gynnwys yn y cyfrifiad asesiad ariannol, a bydd unrhyw ffi a aseswyd yn seiliedig ar eich incwm a'ch treuliau a ganiateir fel y cyfeirir atynt yn Adrannau 5.3 i 5.5 yn unig.

Efallai y bydd rhai mathau o gyfalaf yn cael eu heithrio wrth bennu cyfanswm eich cyfalaf. Cysylltwch â'r Tîm Asesu Ariannol i gael rhagor o wybodaeth.

Mewn rhai amgylchiadau efallai y byddwch yn cael eich trin fel bod gennych gyfalaf hyd yn oed os nad ydych yn meddu arno mewn gwirionedd. Gelwir hyn yn gyfalaf tybiannol a gall gynnwys cyfalaf sydd:

- ar gael i chi pe baech chi'n gwneud cais amdano
- yn cael ei dalu i rywun arall ar eich rhan
- wedi ei waredu eisoes er mwyn lleihau'r swm y mae'n ofynnol i chi ei dalu am eich gofal a'ch cymorth (gweler Adran 6).

At ddibenion asesu ariannol, eich cyfalaf felly yw cyfanswm y cyfalaf gwirioneddol a thybiannol.

Os oes gennych asedau **islaw**'r terfyn cyfalaf, bydd yr Awdurdod Lleol yn trefnu eich lleoliad, a bydd y tâl a aseswyd yn berthnasol. Os ydych am ddewis cartref gofal neu ystafell heblaw'r rhai a gynigir gan yr Awdurdod Lleol, efallai y bydd Cyfraniad Costau Ychwanegol Trydydd Parti hefyd yn berthnasol, fel y nodir yn Adran 4.

## 5.2 Eiddo

At ddibenion yr asesiad ariannol, gall eiddo gynnwys tir, tŷ, siop, carafán, fflat, ac ati sy'n eiddo i chi neu'n rhannol eiddo i chi.

**Os yw eich arhosiad dros dro**, ni fydd gwerth eich prif fan preswyl yn cael ei ystyried cyhyd ag y byddwch yn parhau fel arhosiad dros dro, hyd at uchafswm o 52 wythnos. Fodd bynnag, os ydych chi'n berchen ar unrhyw eiddo neu dir ychwanegol, bydd gwerth yr ased hwn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol o ddiwrnod cyntaf eich arhosiad.

**Os yw eich arhosiad yn barhaol**, ystyrir gwerth eich prif fan preswyl ar ôl y 12 wythnos gyntaf ar ôl eich derbyn i ofal. Os byddwch chi'n gwerthu eich eiddo yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn o 12 wythnos, bydd yr enillion o'r gwerthiant yn cael eu hystyried o'r dyddiad gwerthu.

Os ydych chi'n berchen ar dir, bydd gwerth y tir yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol o'r diwrnod cyntaf I chi gael eich derbyn i'r cartref gofal, os yw eich arhosiad dros dro neu'n barhaol.

Bydd gofyn i chi ddarparu prisiad swyddogol o'ch eiddo neu dir at ddibenion asesu ariannol. Os na fyddwch chi'n darparu prisiad, gall y Cyngor drefnu un ar eich rhan. Mewn achosion o'r fath, codir cost wirioneddol y prisiad arnoch, yn ogystal â ffi weinyddol ychwanegol am y gwasanaeth hwn – gweler Adran 12.

Ni fydd gwerth eich cartref yn cael ei ystyried os yw hefyd yn brif fan preswyl i unrhyw un o'r bobl ganlynol (gweler Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer am ddiffiniad o 'berthynas').

- Eich partner (gŵr, gwraig, partner sifil neu rywun rydych chi'n byw gydag ef fel partner)
- Perthynas sy'n 60 oed neu'n hŷn
- Perthynas ag analluogrwydd (h.y. sy'n derbyn budd-daliadau anabledd neu'n gymwys i dderbyn)
- Plentyn o dan 18 oed
- Gofalwr sydd wedi rhoi'r gorau i'w gartref eu hun er mwyn gofalu amdanoch chi
- Rhiant unigol gyda phlentyn dibynnol y mae eich partner a chithau wedi dieithrio neu ysgaru
- Perthynas nad yw'n berchen ar gartref arall ac a oedd yn byw gyda chi cyn i chi symud i gartref gofal

Os yw gwerth eich cartref wedi'i ddiystyru oherwydd bod rhywun arall yn byw yno, ac mae'r person hwnnw'n symud allan neu'n marw yn ddiweddarach, bydd gwerth yr eiddo fel arfer yn cael ei ystyried o'r dyddiad y maent yn gadael neu'n marw.

Os ydych chi'n berchen ar eich eiddo ar y cyd, caiff dogfennau eu hadolygu i gadarnhau hyn, a dim ond gwerth eich cyfran fydd yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol.

Os yw'ch eiddo wedi'i drosglwyddo i rywun arall, efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am delerau'r trosglwyddiad. Gall yr Awdurdod Lleol hefyd ymgynghori â'n hadran gyfreithiol i benderfynu a chaiff yr eiddo ei drin fel Cyfalaf Tybiannol fel yr amlinellir yn adran 6.

Os ydych chi'n berchen ar eich eiddo, gallwch ddewis p'un ai i'w werthu ai peidio. Os yw eich cynilion, buddsoddiadau a chyfalaf arall yn llai na'r terfyn cyfalaf fel yr amlinellir yn Adran 5.1, byddwch yn cael cynnig Taliad Gohiriedig.

Mae Taliad Gohiriedig yn caniatáu i ran o'ch taliadau gofal aros heb eu talu tan ddyddiad diweddarach. Bydd dal i fod disgwyl i chi gyfrannu unrhyw incwm sydd ar gael, a bydd y gwahaniaeth rhwng eich incwm a chost lawn y lleoliad yn cael ei ohirio.

Bydd gofyn i chi neu'ch ystâd ad-dalu'r swm gohiriedig pan fyddwch chi'n gwerthu eich cartref neu'n gadael gofal preswyl. Bydd llog yn cael ei godi ar y swm gohiriedig, a bydd ffi weinyddol flynyddol yn berthnasol, fel yr amlinellir yn Adran 12.

Os byddwch yn dewis gohirio'ch taliadau, bydd gofyn i chi ymrwymo i gytundeb cyfreithiol ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Lleol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gosod "Tâl Cyfreithiol" ar yr eiddo nes ei fod yn cael ei werthu. Mae hyn yn sicrhau y gellir adennill y swm sy'n ddyledus o enillion y gwerthiant yn y dyfodol.

## 5.3 Incwm

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich holl incwm, waeth beth fo'u ffynhonnell, gan gynnwys budd-daliadau lles yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol. Mewn amgylchiadau penodol, gellir diystyru rhai elfennau o incwm, neu gymhwyso lwfansau penodol i leihau'r swm a gynhwysir yn yr asesiad fel yr amlinellir yn Adran 5.4 a 5.5.

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae’n bosib y byddwch yn cael eich trin fel bod gennych incwm nad ydych yn ei dderbyn mewn gwirionedd. Gelwir hyn yn incwm tybiannol a gall gynnwys incwm sydd:

- ar gael i chi pe baech chi'n gwneud cais amdano
- yn cael ei dalu i rywun arall ar eich rhan
- wedi ei waredu eisoes er mwyn lleihau'r swm y mae'n ofynnol i chi ei dalu am eich gofal a'ch cymorth (gweler Adran 6).

At ddibenion asesu ariannol, eich incwm felly yw cyfanswm yr incwm gwirioneddol a thybiannol.

## 5.4 Enillion

Ym mhob achos, bydd enillion o gyflogaeth a hunangyflogaeth fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru yn cael eu hanwybyddu yn yr asesiad ariannol.

## 5.5 Isafswm Incwm, Lwfansau ac Elfennau a Anwybyddir

O fewn asesiad ariannol mae yna bob amser swm o incwm na ellir ei ystyried. Gelwir hyn yn Isafswm Incwm ac fe'i pennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer blwyddyn ariannol **2026/2027,** mae wedi'i osod ar:

**£46.35 yr wythnos.**

Mae'r rhestr isod yn dangos y prif lwfansau a'r elfennau caiff eu hanwybyddu: -

- Unrhyw enillion cyflogaeth
- Lwfans Gofalwyr
- Budd-daliadau Plant
- Bonws Nadolig
- Treth y Cyngor
- Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol

- Elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol (yn hytrach na'r elfen ofal)
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel
- Treuliau sy'n gysylltiedig â gwaith â thâl
- Taliadau difrod brechlyn, Iawndal thalidomide, a chymeradwyo taliadau iawndal cynllun gwaed halogedi
- Taliadau rhent neu forgais
- £10.00 cyntaf pensiynau Gweddwon/Gweddwon Rhyfel, Taliadau Incwm Gwarantedig Goroeswyr o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, Pensiwn Anafiadau Rhyfel Sifil, taliadau i ddioddefwyr erledigaeth Sosialaidd Cenedlaethol, a Thaliadau i gyn-garcharorion rhyfel y Dwyrain Pell
- Taliadau Arbennig Gweddwon Rhyfel
- Taliadau Tanwydd y Gaeaf
- Pensiwn Anabledd Rhyfel wedi'i ddiystyru'n llwyr
- Hyd at y £5.75 neu £8.60 cyntaf (cwpl) o Gredyd Cynilo

## 6. A allaf roi unrhyw un o'm hasedau i ffwrdd?

Os byddwch chi'n rhoi i ffwrdd cynilion, arian neu asedau eraill neu os byddwch chi'n gwerthu eiddo am lai na'i werth ar y farchnad cyn derbyn gofal a chymorth, neu phan fyddwch chi’n dderbyn gofal a chymorth, yna gellir cynnwys gwerth llawn yr ased yn eich asesiad fel Cyfalaf Tybiannol neu Incwm Tybiannol.

Byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth am amseru, rheswm, gwerth, a’r sawl wnaeth dderbyn unrhyw drosglwyddiad. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i benderfynu a ddylid cynnwys neu ddiystyru'r ased yn yr asesiad ariannol.

Gall y person sydd wedi elwa o'r trosglwyddiad fod yn atebol am unrhyw ffioedd heb eu talu.

## 7. Oes angen i mi ddweud wrthych am unrhyw newid?

Dylech roi gwybod i ni ar unwaith os:

- rydych chi'n derbyn cynnydd neu ostyngiad yn eich budd-daliadau neu incwm
- rydych chi'n dechrau derbyn unrhyw fudd-daliadau neu incwm newydd
- rydych chi'n etifeddu neu derbyn neu unrhyw drosglwyddiad ariannol arall
- bydd eich cynilion neu gyfalaf yn codi uwchlaw y terfyn cyfalaf perthnasol a nodir yn Adran 5.1
- rydych chi'n ysgwyddo treuliau newydd neu ychwanegol o ganlyniad i newidiadau yn eich anghenion gofal a chymorth

Os ydych chi'n byw mewn Cartref Gofal yn barhaol neu dros dro ac rydych chi'n cael eich derbyn i'r ysbyty, byddwn fel arfer yn cadw eich lleoliad ar eich cyfer nes y penderfynir nad oes ei angen mwyach neu nad yw bellach yn addas i ddiwallu eich anghenion yn y dyfodol.

**Yn ystod unrhyw gyfnod y byddwch yn yr ysbyty, byddwn yn parhau i godi tâl am eich lleoliad nes bod penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â'ch gofal parhaus.**

Yn dilyn eich asesiad ariannol ar gyfer gofal a chymorth preswyl, bydd ffioedd yn parhau i fod yn berthnasol hyd at ac yn cynnwys y diwrnod y bydd eich lleoliad yn dod i ben yn barhaol.

## 8. Sut ydw i’n talu yr hyn sy’n ofynnol?

Mae gwahaniaethau yn y ffordd y byddwch chi'n talu yr hyn sy’n ofynnol gan ddibynnu ai’r Cyngor sy’n trefnu neu ddarparu eich Gwasanaeth neu a chânt eu darparu drwy Daliadau Uniongyrchol.

Gwasanaethau a drefnwyd neu a ddarperir gan y Cyngor:

Os yw'r Cyngor yn trefnu neu'n darparu eich gwasanaethau yn uniongyrchol, byddwch yn derbyn anfoneb bob pedair wythnos fel ôl-daliad. Gellir anfon hyn drwy'r post neu drwy e-bost yn electronig, yn dibynnu ar eich dewis.

Mae amrywiaeth o ddulliau talu ar gael, ond yr opsiwn a ffefrir yw **Debyd Uniongyrchol**. Gallwch sefydlu hyn drwy gysylltu â’n Hadran Adennill Dyledion ar 01970 633250.

Mae dulliau talu eraill wedi'u rhestru ar gefn eich anfoneb ac yn cynnwys:

- Taliad yn bersonol mewn Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid drwy arian parod, siec, cerdyn credyd neu ddebyd
- Taliadau ffôn awtomataidd gyda cherdyn credyd/debyd ar 01970 633252
- Taliadau ar lein https://www.ceredigion.gov.uk/resident/online-payments/

Gwasanaethau a ddarperir trwy Daliadau Uniongyrchol

Os ydych chi'n derbyn gwasanaethau drwy Daliadau Uniongyrchol, bydd unrhyw ffi y mae'n ofynnol i chi ei dalu yn dilyn penderfyniad ar eich asesiad ariannol yn cael ei dynnu allan o'r swm y mae'r Cyngor yn ei dalu i chi bob pedair wythnos. Yna rhaid i chi dalu eich cyfraniad i'r cyfrif banc a sefydlwyd yn benodol ar gyfer rheoli eich Taliadau Uniongyrchol, gan wneud hynny hefyd bob pedair wythnos.

## 9. Os ydych chi'n meddwl bod eich Asesiad Ariannol yn anghywir

Os ydych chi'n credu bod yr hyn sydd ei angen i chi ei dalu wedi'i asesu'n anghywir, cysylltwch â'r Tîm Asesu Ariannol.

Bydd Swyddog yn adolygu eich asesiad ac ail-wirio bod yr holl ffigurau'n gywir ac nad oes unrhyw wybodaeth berthnasol ar goll. Os byddwch chi'n dal yn anhapus â'r canlyniad, gallwch ofyn i reolwr gynnal adolygiad ffurfiol.

Gallwch hefyd ofyn i rywun sy'n annibynnol i’r Cyngor wirio'r cyfrifiadau, er enghraifft, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth drwy ffonio 03444 772 020.

## 10. Beth sy’n digwydd os ydw i'n anhapus â'r gwasanaeth neu eisiau gwneud cwyn?

Er bod gan y rhan fwyaf o bobl brofiad cadarnhaol iawn o'r prosesau sy'n gysylltiedig ag asesu gofal, derbyn gwasanaethau gofal a chymorth a'r asesiad ariannol, gall weithiau fod yn gymhleth.

Os ydych chi'n anhapus â'n gwasanaethau, neu am y ffordd rydych wedi cael eich trin, mae gennych hawl i gwyno a dylech gysylltu â'n Tîm Gwybodaeth a Chwynion. Ni fyddwch yn colli gwasanaethau o ganlyniad i wneud cwyn.

Gallwch gysylltu â'r Tîm Gwybodaeth a Chwynion yn y ffyrdd canlynol:

- Dros y ffôn ar 01545 574151
- Trwy e-bost complaints@ceredigion.gov.uk

## 11. Manylion Cyswllt

Tîm Asesu Ariannol

Er mwyn trafod yr asesiad ariannol o'ch taliadau gwasanaeth, ffoniwch neu ysgrifennwch at:

Tîm Asesu Ariannol,
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael,
Neuadd Cyngor Ceredigion Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA
Rhif Ffôn: 01545 572612 / 572683 / 572615
E-bost: dss.assessments@ceredigion.gov.uk

Gwasanaethau Cymdeithasol

Er mwyn trafod eich anghenion gofal a chymorth, cysylltwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu fel arall ffoniwch 01545 574 000.

Cysylltiadau Eraill:

| | |
|---|---|
| Age Cymru Ceredigion- Gogledd | 01970 615151 |
| Age Cymru Ceredigion - De | 01239 615777 |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 0300 7900126 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr | 01970 633564 |
| Cyngor ar Bopeth | 03444 772 020 |
| *Independent Age* | 0800 3196 789 |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) | 0800 882 200 |
| Canolfan Byd Gwaith (JCP) | 0800 055 6688 |

## 12. Ffioedd am ofal a chymorth preswyl

| Gwasanaeth | Nodyn | Ffioedd |
|---|---|---|
| Gofal tymor byr (hyd at 8 wythnos)<br><br>Gofal seibiant (hyd at 6 wythnos)<br><br>Taliadau uniongyrchol yn lle'r gwasanaethau uchod<br><br>Gweler Gwasanaethau Cymdeithasol Di-breswyl – Taflen ar Ganllaw i Asesu Ariannol a Thaliadau am fwy o wybodaeth. | Noder os gwelwch fod yn dda fod hwn yn dâl **wythnosol** o ddydd Llun i ddydd Sul yn gynwysedig.<br>Os yw person mewn gofal seibiant neu leoliad tymor byr am 1 noson yn unig, y tâl fydd naill ai ei dâl wythnosol a aseswyd (os yw'n berthnasol) neu'r uchafswm tâl wythnosol, pa un bynnag yw'r isaf. | £100.00 |
| Tâl am lety preswyl mewn cartrefi awdurdodau lleol mewn perthynas â Llety Parhaol a Dros Dro (hyd at 52 wythnos) | Tâl Safonol Wythnosol<br>(yn amodol ar Asesiad Ariannol)<br><br>• Henoed Preswyl Dibynnol Iawn<br><br>• Dementia Preswyl | <br><br><br>£1,000.00<br><br>£1,067.00 |
| Ffioedd a delir gan Gyngor Sir Ceredigion i Gartrefi Gofal y Sector Annibynnol mewn perthynas â lleoliadau Parhaol a Dros Dro (hyd at 52 wythnos) ar gyfer unigolion nad ydynt yn talu'r gost lawn.<br><br>Os cewch eich asesu'n ariannol i dalu'r gost lawn, bydd gofyn i chi dalu'r ffi breifat lawn a osodir gan y Cartref Gofal hwnnw a allai fod yn uwch na'r ffi a delir gan Gyngor Sir Ceredigion. | Tâl Wythnosol<br>(yn amodol ar Asesiad Ariannol)<br><br>• Henoed Preswyl Dibynnol Iawn<br>• Dementia Preswyl<br>• Nyrsio Cyffredinol<br>• Dementia Nyrsio | £1,000.00<br><br>£1,067.00<br><br>£1,157.00<br><br>£1,157.00 |
| Tâl am leoliadau coleg preswyl i oedolion (amser tymor yn unig) | Tâl Wythnosol wedi'i gapio –<br>(yn amodol ar Asesiad Ariannol) | £40.00 |
| Tâl Gweinyddol ar gyfer unigolion sy’n ariannu eu hunain | Tâl Blynyddol<br>(codi tâl wythnosol ar sail pro-rata) | £825.00 |
| Tâl Gweinyddu y Taliadau Gohiriedig | Tâl Blynyddol<br>(codi tâl wythnosol ar sail pro-rata) | £825.00 |
| Prisiad eiddo gan y Cyngor | Union gost prisio ynghyd â thâl gweinyddol o £50 | Amrywio |

**Nodwch y gall unrhyw ffioedd a gynhwysir yn y llyfryn hwn newid. Mae newidiadau fel arfer yn berthnasol o fis Ebrill bob blwyddyn.**

**Os hoffech y llyfryn mewn print bras, cysylltwch â'r Tîm Asesu Ariannol ar**
**☎ 01545 572683 neu 01545 572612**

This document is also available in English / Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.